

Data Cyfrifiad 2021 ar gyfer Sir Gaerfyrddin – Amddifadedd Aelwydydd

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi defnyddio methodoleg rheoli datgelu ystadegol newydd ar gyfer Cyfrifiad 2021. O ganlyniad, ni fydd ffigurau a grëir drwy grynhoi daearyddiaethau lefel is yn cyfateb i ffigurau a ryddhawyd ar gyfer daearyddiaethau uwch. Nid yw'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn argymhell cydgrynhoi daearyddiaethau lefel is i greu daearyddiaethau uwch.

Aelwydydd yn ôl Meysydd Amddifadedd	Sir Gaerfyrddin				Cymru				Cymru a Lloegr			
	2011		2021		2011		2021		2011		2021	
Pob Aelwyd	78,829		81,579		1,302,676		1,347,114		23,366,044		24,783,199	
Aelwyd heb amddifadedd mewn unrhyw faes	29,639	37.6%	37,050	45.3%	508,125	39.0%	618,587	45.9%	9,893,044	42.3%	11,968,324	48.3%
Aelwyd ag amddifadedd mewn un maes	25,587	32.4%	27,869	34.1%	415,983	31.9%	450,057	33.4%	7,620,164	32.6%	8,292,747	33.5%
Aelwyd ag amddifadedd mewn dau faes	18,590	23.6%	13,425	16.4%	288,871	22.2%	215,492	16.0%	4,512,853	19.3%	3,536,076	14.3%
Aelwyd ag amddifadedd mewn tri maes	4,729	5.6%	3,324	4.1%	83,439	6.4%	60,583	4.5%	1,217,061	5.2%	928,687	3.7%
Aelwyd ag amddifadedd mewn pedwar maes	284	0.4%	91	0.1%	6,258	0.5%	2,395	0.2%	122,193	0.5%	57,365	0.2%

Dadansoddiad:

- Mae 54.7% o aelwydydd Sir Gaerfyrddin ag amddifadedd mewn un dimensiwn o leiaf. Mae hyn yn ostyngiad o 7.3% ers y Cyfrifiad diwethaf.
- Mae'r cyfartaleddau ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn cymharu'n negyddol â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr ym mhob mesur ac eithrio 'mae'r aelwyd ag amddifadedd mewn pedwar dimensiwn' lle mae'r cyfartaledd ar gyfer Sir Gaerfyrddin 0.1% yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr.
- Mae cyfraddau tlodi yn codi yn Sir Gaerfyrddin ac ar lefel genedlaethol, felly mae'n diddorol gweld oddi wrth y mesur hwn bod llai o aelwydydd yn cael eu hystyried yn rhai amddifad. Mae hyn yn awgrymu, er bod aelwydydd yn gwella eu safon byw drwy addysg, cyflogaeth, iechyd neu dai, nad yw effeithiau'r gwelliannau hynny o reidrwydd yn golygu lleihau'r risg y bydd yr aelwydydd hynny'n syrthio i dlodi neu'n helpu aelwydydd i godi eu hunain allan o dlodi.

Diffiniad:

Mae'r set ddata hon yn darparu amcangyfrifon Cyfrifiad 2021 sy'n dosbarthu aelwydydd yng Nghymru a Lloegr yn ôl pedwar dimensiwn o amddifadedd: Cyflogaeth, addysg, iechyd ac anabledd, a gorlenwi aelwydydd. Mae'r amcangyfrifon fel ag yr oeddent ar Ddiwrnod y Cyfrifiad, 21 Mawrth 2021. Disgrifiad Amrywiol: Mae'r dimensiynau amddifadedd a ddefnyddir i ddosbarthu aelwydydd yn ddangosyddion sy'n seiliedig ar bedair nodwedd a ddewiswyd mewn aelwydydd.

Addysg

Caiff aelwyd ei dosbarthu fel un ag amddifadedd yn y dimensiwn addysg os nad oes gan neb addysg lefel 2 o leiaf ac nad oes unrhyw un rhwng 16 a 18 oed yn fyfyrwr amser llawn.

Cyflogaeth

Caiff aelwyd ei dosbarthu fel un ag amddifadedd yn y dimensiwn cyflogaeth os oes unrhyw aelod, nad yw'n fyfyrwr amser llawn, naill ai'n ddi-waith neu â salwch tymor hir.

Iechyd

Caiff aelwyd ei dosbarthu fel un ag amddifadedd yn y dimensiwn iechyd os oes unrhyw aelod yn anabl.

Tai

Caiff aelwyd ei dosbarthu fel un ag amddifadedd yn y dimensiwn tai os yw llety'r aelwyd naill ai'n orlawn, mewn annedd a rennir, neu heb wres canolog.